**LLANFIHANGEL-AR-ARTH COMMUNITY COUNCIL**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021-2022**

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth ar gyfer y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth, 2022.

Mae Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth Community Council yn Gyngor anwleidyddol ac yn cynnwys 12 Cynghorydd Cymuned:

- Cyng. Martin Griffiths (Cadeirydd)
- Cyng. Dylan Davies (Is-Gadeirydd)
- Cyng. Barbara Cobain
- Cyng. Annette Davies
- Cyng. Arwel Davies
- Cyng. Val Davies
- Cyng. Melvyn Evans
- Cyng. Yvonne Griffiths
- Cyng. Eirian Jones
- Cyng. Glyn Jones
- Cyng. Haulwen Lewis
- Cyng. Shirley Mason

Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Cynghorydd Sir Linda Davies-Evans sydd yn mynychu ein cyfarfodydd yn rheolaidd yn ei rol fel Cynghorydd Sir ar gyfer ardal Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth.

Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor ydy Mrs. S. Anita Evans, Frongelli, New Inn, Pencader, Sir Gâr. SA39 9AZ. Ffôn: 01559 384266.
e-bost: cyngorcymunedllanfihangelararth@outlook.com

Mae pob Cynghorydd yn preswylio o fewn yr ardal a wasanaethir gan y Cyngor, sef pentrefi/cymunedau Llanfihangel-ar-Arth, Pencader, Pontweli, New Inn, Gwyddgrug, Dolgran ac Alltwalis. Ni does unrhyw sedd wag yn bresennol.

## Cyfarfodydd

Mae'r Cyngor yn cyfarfod ar y 3ydd Nos Lun o bob mis yn Festri Capel Tabernacl, Pencader, ag eithrio misoedd Awst a Rhagfyr pan na chynhelir cyfarfod.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Is-Bwyllgor Cyllid yn cyfarfod bob chwarter i fonitro/adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor, tra bod yr is-bwyllgorau eraill, sef Cynllunio, Safle We a Safleoedd, yn cyfarfod yn ôl yr angen.

Yn ystod cyfnod cyfyngiadau Covid, cynhaliwyd y cyfarfodydd drwy gyfrwng Zoom.

**Cyllid**

Derbynia Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth ei incwm yn bennaf drwy'r Precept. Ar gyfer y flwyddyn 2021-2022, roedd y swm yn £49000, sef yn union yr un faint â'r flwyddyn flaenorol, 2020-2021.

Roedd gwariant y Cyngor yn ysotd 2021-2022 yn bennaf ar gyfer y canlynol:

- Cyflogau Staff
- Adnewyddu goleuadau stryd i LED
- Cynnal a chadw safleodd mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt, e.e. ardal chwarae, dwy fynwent, cyfleusterau cyhoeddus, cofeb rhyfel
- Cafnau blodau ymhob pentref o fewn ardal y Cyngor Cymuned
- Prynu, cynnal a chadw diffibrilwyr.

Derbyniodd un-ar-ddeg o'r Cynghorwyr y taliad lwfans blynyddol o £150 yr un, sydd wedi ei osod gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Roedd y cyfanswm a dalwyd i Gynghorwyr yn y flwyddyn 2021-2022 yn £1650.

Mae manylion gwariant y Cyngor ar gael yng Nghyfrifon Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2021-2022. Gweler safle we y Cyngor.

**Perthynas gyda Chyngor Sir Gâr**

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r Cynghorydd Sir Linda Davies-Evans sydd yn mynychu'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd, ac yn gefnogol wrth ddelio gydag unrhyw ymholiadau sydd gan y Cyngor a'r etholaeth ynglyn ag unrhyw wasanaethau neu faterion sydd yn effeithio ar unrhyw aelod o'r Gymuned.

**Cynllun Hyfforddiant**

Mae'r Cyngor yn aelod o Un Llais Cymru sydd yn darparu'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant mae'r Cynghorwyr a'r Clerc yn ei ddilyn. Mae Cynllun Hyfforddiant ar gyfer 2021-2022 ar waith a hysbysir y Cynghorwyr yn gyson am y cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael.

**Awdit**

Mae Archwiliad Mewnol o'r cyfrifon yn flynyddol gan berson proffesiynol a benodir gan y Cyngor. Yn dilyn hynny, anfonir y cyfrifon i'w harchwilio'n allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Wedi i'r Archwiliad Allanol gael ei gwblhau, cyhoeddir y cyfrifon, ynghyd â barn yr Archwilydd, ar wefan y Cyngor.

**Cwynion**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn 2021-2022.

**Prif Amcanion ar gyfer 2021-2022**

Prif Amcanion y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf oedd:

- Newid goleuadau stryd i LED.
- Parhau gyda'r rhaglen o ddarparu diffibrilwyr ymhob pentref o fewn ardal y Cyngor Cymuned.
- Adneywddu cyfleusterau cyhoeddus Alltwalis a Phencader.
- Parhau i gyfathrebu gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â chyflwr nifer o heolydd sydd yn parhau i waethygu ar draws y plwyf.
- Dechrau ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Asedau**

Ardal Chwarae Pencader
Mynwent Pencader
Mynwent Capel Troedrhiw, Alltwalis
Y Gofeb Rhyfel ym Mhencader
Cofeb yr Hen Ŵr ym Mhencader
Tir sydd wedi ei nodi yn Ardal Bicnic yn Llanfihangel-ar-Arth.

**Trosglwyddo Asedau**

Mae trefniadau eisoes mewn llaw ynglyn â throsglwyddo Lês y Cyfleusterau Cyhoeddus yn Alltwalis a Phencader o Gyngor Sir Caerfyrddin i Gyngor cymuned Llanfihangel-ar-Arth.

**Gweithgareddau**

Gwaith cynnal a chadw, gan gynnwys darparu ffens o amgylch Ardal Chwarae Pencader, er mwyn sicrhau safle diogel i'w holl ymwelwyr.

Cynnal a chadw'r holl seddau a chafnau blodau yn yr holl bentrefi a wasanaethir gan y Cyngor Cymuned.

Cynnal a chadw Mynwentydd Pencader ac Alltwalis, y Gofeb Rhyfel a Chofeb yr Hen Ŵr ym Mhencader.

**Cyflawniadau**

Darparwyd diffibrilwyr mewn mannau priodol o fewn ardal y Cyngor Cymuned yn unol â'r hyn y cylluniwyd.

Dechreuwyd ar y gwaith o adnewyddu'r cyfleusterau cyhoeddus ym Pencader ac Alltwalis.

Darparwyd goleuadau stryd LED ar draws yr ardal, yn ogystal â golau stryd ychwanegol ym Marshlands, Pencader.

**Blaenoriaethau**

Blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2022-2023 ydy:

- Parhau gyda'r rhaglen o ddarparu diffibrilwyr ymhob pentref o fewn ardal y Cyngor Cymuned.
- Symud ymlaen y broses o gwblhau'r trosglwyddiad lês ar gyfer y Cyfleusterau Cyhoeddus yn Alltwalis a Phencader.
- Dal i barhau'r trafodaethau a chyfathrebu gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â chyflwr gwael yr heolydd mewn nifer o ardaloedd o fewn y plwyf.
- Gwneud gwelliannau i'r adeilad ym Mynwent Pencader a phlannu clawdd newydd o amgylch yr Ardd Goffa.
- Parhau'r agenda o ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol Ac Etholiadau (Cymru) 2021.

---

O ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19, cynhaliwyd pob cyfarfod yn ystod y flwyddyn 2021-22 drwy gyfrwng Zoom. Rwyf yn dra-diolchgar i'r holl Gynghorwyr a'r Staff am eu hymroddiad yn ystod y cyfnod hwn er mwyn sicrhau bod y Cyngor wedi parhau i weithredu'n effeithiol o dan y fath amgylchiadau anodd ac heriol. Fel y gwnewch sylwi o'r adroddiad uchod, mae nifer o faterion blaenllaw wedi eu gweithredu a bydd unrhyw fater sydd yn dal ar waith yn cael ei flaenoriaethu eto yn y flwyddyn 2022-23.

Mae diwedd y flwyddyn hon yn nodi diwedd y tymor etholiadol presennol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn ddidwyll iawn i'r holl Gynghorwyr am eu cefnogaeth, ymrwymiad a'u cyfraniad o wasanaethu'r gymuned yn ystod y tymor presennol, ac i ddymuno pob llwyddiant ac hapusrwydd ar gyfer y dyfodol i bob un o'r Cynghorwyr sydd yn ymddeol.

Martin Griffiths
Cadeirydd – Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth

---